Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 5

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 7.)

Mae Michael Jones yn cyrraedd y tŷ gyda'r nos. Mae ei chwaer, Anwen, y nyrs, yn aros amdano.

Anwen: Michael. Lle 'wyt ti wedi bod?

Michael: Yn ymarfer yn y clwb. Pam?

Anwen: Efo plaster ar dy droed?

Michael: Mae'n bosib ymarfer heb redeg o gwmpas. Ta waeth, does 'na ddim byd yn bod ar fy nhroed!

Anwen: Dw i'n gwybod hynny! A does neb yn amau dim?

Michael: Nac oes.

Anwen: Rhaid bod rhywun yn amau.

Michael: Does neb yn amau, Anwen. Ust! Unrhyw negeseuon?

Anwen: Oes. Mi ffoniodd rhyw newyddiadurwr.

Michael: Be' ddwedodd o?

Anwen: Dim llawer. Roedd o isio dŵad i wneud stori – Local Boy Comes Good…

Michael: Dim eto!

Anwen: Wedyn, mi ffoniodd Denzil.

Michael: *(Yn edrych i fyny yn sydyn)* Be' ddwedodd o?

Anwen: Dim.

Michael: Rhaid bod 'na gêm heno yn y casino.

Anwen: Paid â mynd, Michael. Rwyt ti'n gamblo gormod o lawer.

Michael: Paid â swnian, Anwen. Mae gynnon ni ddigon o bres ac mae mwy yn dŵad y mis nesa.

Anwen: Y mis nesa?

Michael: Mae Caerddinas yn mynd i ennill pob gêm dros yr wythnosau nesa, Anwen. Mi fydd pawb yn hapus. Wedyn, y mis nesa mae 'na gêm yn erbyn Fanelhagen yn yr Almaen…

Anwen: Ac mi fydd Caerddinas yn colli….?

Michael: Mi fydd Caerddinas yn colli. Bechod!

Geirfa

Amau – to suspect

Unrhyw negeseuon – any messages

Ta waeth - anyway

Swnian – to nag